**CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL**
**Cadeirydd: Gerallt Jones**
Nos Lun Mawrth 29ain 2021 am 8.00 y.h.

Cynhaliwyd y cyfarfod ar Zoom o ganlyniad i'r Covid-19

# ***Cofnodion***

Croesawyd atom ein Cynghorydd newydd Gethin Pyrs i'w gyfarfod cyntaf a gobeithio bydd yn hapus yn ein cwmni.

1. **Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Gwynfor Roberts, Cynghorydd Sirol Garffild Lewis
2. **Presennol**: Cyng. Alun Owen, Gari Jones, Gerallt Jones, Gethin Pyrs, Edmund Rees, ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad**: Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Rhagfyr:** derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir gan ER gyda GBJ yn eilio
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion**:-
    - 5.1. Fflag Cymru – cynigiodd ER gyda GBJ yn eilio a phawb yn gytûn ein bod yn archebu fflag newydd maint 3 llath. Talwyd £147.70 + Postio £10.95 + TAW £31.73 = **£190.38** gyda siec rhif **100349.** (S144)
6. **Gohebiaeth:**
    - 6.1 CBSC – derbyniwyd yr ail daliad cyntaf o'r Presept £1400.00
      " y trydydd taliad o'r Presept £1400.00
7. **Ffurflen Monitro:**
   Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Ffurflen TAW:**
   Cwblhawyd y ffurflen dreth am y ddwy flynedd diwethaf ac anfonwyd ymlaen.
9. **Talu Anfonebau:**
    - 9.1. Archwilio Cymru - cynigiodd GBJ gydag ER yn eilio talu'r anfoneb o **£259.85** gyda siec rhif **100347.** S151
    - 9.2. Un Llais Cymru – cynigiodd ER gydag AO yn eilio talu'r anfoneb o **£53.00** gyda siec rhif **100348.** S133
10. **Cais Cynllunio:**
   Cyfeirnod 0/48299
   Ymgeisydd Mr Llyr ap Gethin
   Cynllun Codi Annedd
   Safle Llifon, Aber Pwll, Pentrefoelas
   Trafodwyd y cais a'i cefnogwyd yn unfrydol ond atodwyd yn y llythyr nad oeddem yn fodlon gyda'r cymal 'Tai Fforddiadwy' ac y dylai hun gael ei ddiddymu.
11. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis:** Nid oedd y Cyng. Sirol yn bresennol.
12, **Unrhyw fater arall:**
    - 12.1. Angen cael gwybod faint o'r tir parcio sy'n mynd hefo Sgubor Rin hefyd oes hawl defnyddio'r llwybr heibio'r Sgubor a hefyd y llwybr i'r coed cyfagos.
    - 12.2. Ffordd wedi gostwng o dan Foty.
    - 12.3. Pont o dan y ffordd wrth Aber Pwll wedi rhoi.
    - 12.4. Trafnidiaeth yn gor-yrru drwy'r pentref
    - 12.5. Tyllau dal heb ei trwsio wrth Gapel Bethel

   .
13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf clerc i drefnu**

Arwyddwyd______________________________ Dyddiad____________

Cadeirydd